# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2024

**Presenoldeb:**

**Cadeirydd:** Cyng. Menna Trenholme
**Is-gadeirydd:** Cyng. Nia Jeffreys

**Cynghorwyr:**

Annwen Hughes, Medwyn Hughes, June Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones, Dafydd Meurig, Gwynfor Owen, Angela Russell a Rob Triggs

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams a'r Cynghorydd Ioan Thomas

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023 fel rhai cywir

## 5. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TAL AR GYFER GWEITHLU'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor wrth fabwysiadu Polisi Tâl ar gyfer 2024/25, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r Polisi Tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Amlygodd y Prif Weithredwr nad oedd newid i'r polisi a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 ac mai ymarfer da yw cael trosolwg a chyhoeddi amodau gwaith y staff yn

flynyddol a hynny yn unol â gofynion y Ddeddf. Ategodd Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol bod trafodaethau a negodi blynyddol ynglyn a chodiadau cyflog blynyddol yn digwydd tu allan i'r Cyngor - Prif Swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol yn pennu cyflogau o dan lefel prif swyddogion. Cafwyd cytundeb ym mis Mai 2023 ar gyfer prif swyddogion a chytundeb ddechrau Tachwedd 2023 ar gyfer staff sydd yn gweithio o dan lefel prif swyddogion. Nid yw trafodaethau ar gyfer 2024/ 25 wedi dechrau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd trafodaethau ynglŷn â chodiadau cyflog yn digwydd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd / gosod y gyllideb, nodwyd bod cyflogwyr yn amlwg yn ceisio derbyn y cynnig terfynol erbyn mis Ionawr fel bod modd datrys y cynnydd erbyn dechrau'r flwyddyn gyllidol (Ebrill), ond bod yr Undebau efallai yn rhoi pwysau ychwanegol ar y cyflogwyr drwy gyflwyno eu hawliad cyflog yn hwyrach yn y flwyddyn newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng colofn 'wedi eu herio' a 'heb eu herio' yng nghyd-destun Cynllun Taliadau Etholiadau, nodwyd bod 'wedi eu herio' yn cyfeirio at gystadleuaeth o fewn ward tra bod 'heb eu herio' yn cyfeirio at ward lle na fu cystadleuaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig y Datganiad i'r Cyngor ei fabwysiadu ar gyfer 2024/25

**PENDERFYNWYD**

**Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth y 7fed 2024, fel un i'w fabwysiadau ar gyfer 2024/25**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00 y.h. a daeth i ben am 4.10 y.h.

**CADEIRYDD**